# Cyngor Cymuned Aberdaron

## CYNLLUN HYFFORDDIANT

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Cymuned Aberdaron ystyried hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff o dan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) a'i gyhoeddi ar ei wefan.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod y Cynghorwyr â'r Clerc gyda'i gilydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob Cynghorydd a Chlerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Rhaid rhoi cynllun hyfforddiant newydd ar waith ar ôl pob etholiad arferol o gynghorwyr cymuned i adlewyrchu'r anghenion hyfforddi a gyfyd o newidiadau i aelodaeth y Cyngor. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath ac fe'i hadolygir yn flynyddol i'w gadw'n gyfredol a pherthnasol.

Mae meysydd craidd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol, sef:

- Modiwl ar gyfer Cynghorwyr newydd,
- Y Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru,
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Bydd pob Cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu gwybodaeth yn fisol o'r hyfforddiant, ac mae'r rhain yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Cyngor Tref. Mae cyrsiau yn cael eu cynnig ar lein ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob Cynghorydd yn cael y fersiwn diweddaraf o'r 'Canllaw Cynghorydd Da' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dylent ymgyfarwyddo â'i gynnwys. Yn ogystal, caiff y Clerc gyfle i fynychu hyfforddiant a gynigir gan Gymdeithas y Clercod (SLCC) a bydd aelodaeth y Clerc o'r SLCC yn cael ei dalu gan y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn neilltuo cyllid yn flynyddol i sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc yn medru mynychu cyrsiau hyfforddiant, cynadleddau a digwyddiadau'r sector.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:

- gylchredeg unrhyw wybodaeth am hyfforddiant addas ac awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol.

**Y CYNLLUN**

- Cynghorwyr newydd – i fynychu modiwl Cynghorwyr newydd Un Llais Cymru o fewn blwyddyn i'w hethol,
- Pob Cynghorydd - i fynychu modiwl hyfforddiant Côd Ymddygiad Un Llais Cymru - o fewn dwy flynedd i'w hethol,
- Annog i bob Cynghorydd i fynychu cyrsiau priodol Un Llais Cymru,
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd y Cyngor - i fynychu modiwl Sgiliau Cadeirio Un Llais Cymru – o fewn blwyddyn i'w hethol,
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd yr Is-bwyllgor Ariannol – i fynychu Modiwl 21 Cyllid Llywodraeth Leol Un Llais Cymru - o fewn blwyddyn i'w hethol,
- Clerc – hyfforddiant parhaus proffesiynol drwy fynychu cynadleddau, seminarau, cyrsiau hyfforddiant, digwyddiadau'r sector yn flynyddol yn ôl y galw.

Mabwysiadwyd a chymeradwywyd gan y Cyngor Cymuned yn eu cyfarfod gynhaliwyd 12fed Mehefin 2023.